Adroddiad Effaith Menter 2025-2026
Grŵp Llandrillo Menai
Swyddogion Menter Karen Aerts a Shoned Owen

Meithrin Menter yn ein Coleg. Mae ein coleg wedi ymrwymo'n llwyr i feithrin ysbryd entrepreneuraidd ymhlith ein myfyrwyr, gan gyd-fynd â nodau gweledigaethol Llywodraeth Cymru. Ein nod yw rhoi'r sgiliau a'r hyder hanfodol i bobl ifanc i greu eu dyfodol eu hunain a chyfrannu'n ystyrlon at dwf economaidd y rhanbarth.

Rydym yn cyflwyno ein rhaglen cymorth menter trwy ddull strwythuredig, yn bennaf. Rydym ni'n dechrau gyda digwyddiadau a sesiynau menter cyffredinol sy'n cyflwyno menter fel opsiwn hyfyw ar gyfer y dyfodol. Nesaf, rydym ni'n cynnig gweithdai pwrpasol ar bynciau penodol fel cyllid a marchnata. Yna rydym ni'n gweithio gyda myfyrwyr unigol i'w paratoi i lansio eu syniad busnes.

Mae'r sgiliau rydym ni'n eu dysgu i'r myfyrwyr yn hanfodol ar gyfer llwyddiant ym mhob agwedd ar fywyd, y tu hwnt i fenter. Rydym ni'n canolbwyntio ar ddatblygu gwydnwch, sgiliau datrys problemau, cyfathrebu effeithiol, hyblygrwydd, ymchwilio, rhwydweithio a rheoli amser sydd hefyd yn eu gwneud yn hynod atyniadol i gyflogwyr, yn ogystal â rhoi hyder iddyn nhw mewn sefyllfaoedd personol.

Uchafbwynt ein blwyddyn yw ein Gwobr Entrepreneur Ifanc y Flwyddyn. Mae'n dathlu llwyddiant unigol ac yn dangos potensial go iawn ein myfyrwyr. Roedd safon y ceisiadau yn hynod uchel eto eleni, ac mae enillydd y wobr, Ella, wedi lansio ei busnes basgedi cynnyrch Cymreig i'r diwydiant twristiaeth lleol. Enillodd Ella liniadur newydd i'w galluogi i dyfu ei busnes.

Rydym ni'n deall nad yw'r daith i fenter lwyddiannus yn digwydd ar ei phen ei hun. Er mwyn rhoi'r cyfoeth mwyaf posib o gymorth a chefnogaeth i'n myfyrwyr, rydym ni'n gweithio'n agos gyda Syniadau Mawr Cymru, Busnes

Cymru, a rhwydwaith ehangach o asiantaethau rhanbarthol. Mae'r cydweithio hwn yn dod ag arbenigedd, adnoddau ychwanegol, a chysylltiadau hanfodol â'r diwydiant sy'n allweddol wrth helpu ein myfyrwyr i gyflawni eu llawn botensial a ffynnu ym myd busnes. Mae modelau rôl Syniadau Mawr Cymru yn dod i siarad â'r myfyrwyr yn rheolaidd, sy'n rhoi cipolwg ar y byd go iawn i'r iddyn nhw, i'w hysbrydoli a'u helpu i weld beth sy'n bosibl o ran eu dyfodol.

Mae cadw mewn cysylltiad rheolaidd â'n myfyrwyr yn hanfodol er mwyn cynnal eu diddordeb a sicrhau eu bod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf. Rydym ni'n rhannu digwyddiadau wedi'u recordio, nad oeddent efallai wedi gallu dod iddyn nhw'n bersonol, ar ein llwyfannau cyfryngau cymdeithasol e.e. ein digwyddiad Diwrnod Rhyngwladol y Menywod, adnoddau, digwyddiadau sydd ar ddod ac yn rhoi cyfle i'r myfyrwyr rwydweithio â'i gilydd. Rydym hefyd yn eu cyfeirio at weithdai a chystadlaethau allanol sy'n rhoi cyfleoedd gwerthfawr iddyn nhw brofi eu sgiliau ac ennill profiad ehangach.

Ein Dysgwyr Mentrus -

Mae'r ffigurau a gyflwynir yn adlewyrchu'r myfyrwyr sydd wedi ymgysylltu'n uniongyrchol â chymorth menter EQUIP. Er ei'n bod yn cydnabod bod llawer o fyfyrwyr a graddedigion entrepreneuraidd eraill ledled Grŵp Llandrillo Menai, mae'r adroddiad hwn yn tynnu sylw at yr unigolion yr ydym wedi cael y cyfle i'w cefnogi ar hyd eu taith fusnes.

Rydym hefyd yn parhau i gefnogi ein cyn-fyfyrwyr a ddechreuodd eu busnes tra oeddent yn y coleg.

3458	Myfyrwyr yn cymryd rhan mewn digwyddiadau cyflwyniadol.
351	Mynychodd y myfyrwyr weithdai grymuso.
9	Gweithiodd y myfyrwyr tuag at ddechrau eu busnes eu hunain.
5	Lansiodd myfyrwyr eu syniad busnes.